COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

CANLLAWIAU

# Budd cyhoeddus: adrodd (PB3)



MEDI 2013

Fformat newydd Ionawr 2017

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhan 1: Am y canllaw hwn | 2 |
| Rhan 2: Y gofyniad i adrodd ar fudd cyhoeddus | 5 |
| Rhan 3: Sut i adrodd ar fudd cyhoeddus | 6 |
| Rhan 4: Adroddiadau Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a anfonir at y Comisiwn Elusennau | 8 |
| Rhan 5: Gwybodaeth bellach | 9 |
| Rhan 6: Termau technegol | 10 |
| Atodiad A: Rheoliadau (Cyfrifon ac Adroddiadau) Elusennau 2008 | 11 |

# Rhan 1: Am y canllaw hwn

(Gofyniad cyfreithiol): mae'r canllaw hwn yn esbonio'r ddyletswydd bod rhaid i ymddiriedolwyr elusen adrodd ar sut y maent wedi cyflawni dibenion eu helusen er budd y cyhoedd.

Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i chi os ydych chi'n ymddiriedolwr elusen gofrestredig. Bydd hefyd o ddiddordeb i chi os ydych chi'n ystyried gwneud cais i'r Comisiwn Elusennau i gofrestru elusen, er mwyn i chi ddeall y ddyletswydd i adrodd ar fudd cyhoeddus yn dilyn cofrestru.

## Canllawiau budd cyhoeddus eraill

Mae'r canllaw hwn yn rhan o gyfres o dri chanllaw budd cyhoeddus y Comisiwn Elusennau.

Mae materion yn ymwneud â dibenion eich sefydliad ac a ydynt yn elusennol a chyflawni'r dibenion hynny yng nghyd-destun rhedeg elusen yn cael sylw mewn canllawiau budd cyhoeddus eraill:

- **Budd cyhoeddus: y gofyniad budd cyhoeddus** (PB1) - Mae'r canllaw hwn yn esbonio'r gofyniad budd cyhoeddus. Mae'r gofyniad hwn yn effeithio ar statws sefydliad fel elusen.
- **Budd cyhoeddus: rhedeg elusen** (PB2) - Mae'r canllaw hwn yn esbonio budd cyhoeddus yng nghyd-destun rhedeg elusen.

I gael gwybod rhagor am ein canllawiau budd cyhoeddus gweler:

- **Budd cyhoeddus: trosolwg**

## Rhoi sylw i'n canllawiau

(Gofyniad cyfreithiol): mae'r Ddeddf Elusennau yn datgan bod rhaid i ymddiriedolwyr elusen 'roi sylw' i'n canllawiau budd cyhoeddus 'wrth ymarfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau y mae'r canllawiau'n berthnasol iddynt'.

(Gofyniad cyfreithiol): mae Rheoliadau (Cyfrifon ac Adroddiadau) Elusennau 2008 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ymddiriedolwyr elusen gynnwys datganiad yn eu Hadroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr sy'n nodi a ydynt wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd honno.

Mae 'rhoi sylw' i'n canllawiau budd cyhoeddus yn golygu y dylai ymddiriedolwyr elusen allu dangos eu bod:

- yn ymwybodol o'r canllawiau
- wedi rhoi sylw i'r canllawiau pan fyddant yn gwneud penderfyniad y mae'r canllawiau yn berthnasol iddo
- os ydynt wedi penderfynu gweithredu'n wahanol i'r canllawiau, bod rhesymau da ganddynt dros wneud hynny.

## Cyfeiriadau at ganllawiau eraill

Mewn rhai mannau yn y canllaw hwn ceir dolenni i ganllawiau perthnasol eraill a allai fod yn ddefnyddiol i ddarllenwyr y canllaw hwn gyfeirio atynt.

Os nad yw'r canllaw arall yn ffurfio rhan o'n cyfres o ganllawiau budd cyhoeddus, ac felly nid yw'n ganllaw y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen 'roi sylw' iddo, nodir hynny.

## Y gyfraith mewn perthynas â budd cyhoeddus

Nid yw ein canllaw budd cyhoeddus yn gyfraith ar fudd cyhoeddus. Mae'r gyfraith ar fudd cyhoeddus i'w gweld mewn deddfwriaeth elusennau a phenderfyniadau'r llysoedd.

Mae ein canllawiau budd cyhoeddus yn ganllawiau cyffredinol lefel uchel wedi'u hysgrifennu i ymddiriedolwyr elusen i esbonio beth mae'r gyfraith yn ei ddweud am fudd cyhoeddus a sut rydym yn dehongli ac yn cymhwyso'r gyfraith honno.

Gwnawn benderfyniadau am fudd cyhoeddus mewn achosion unigol yn seiliedig ar y gyfraith fel y bo'n gymwys i ffeithiau'r achos arbennig, ac nid ar y canllawiau lefel uchel hyn oherwydd ni all ein canllawiau cyffredinol gwmpasu holl gymhlethdodau'r gyfraith sy'n ymwneud â budd cyhoeddus.

I gael rhagor o wybodaeth am ein barn ni ar yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud am fudd cyhoeddus gweler:

- **Dadansoddiad o'r gyfraith mewn perthynas â budd cyhoeddus**

Gall y dadansoddiad hwn o'r gyfraith fod o ddiddordeb i ymddiriedolwyr elusen a hoffai wybod mwy am sail gyfreithiol ein canllawiau. Fodd bynnag, nid yw'n ffurfio rhan o'n cyfres o ganllawiau budd cyhoeddus, ac felly nid yw'n ganllaw y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen roi sylw iddo fel y cyfryw.

## Defnyddio 'rhaid' a 'dylai'


Mae'r gair 'rhaid' yn cael ei ddefnyddio pan fydd gofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol y mae'n rhaid i chi gydymffurfio ag ef.  Mae 'dylai' yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y canllawiau arfer da lleiaf y dylech eu dilyn oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.

Cynigiwn gyngor llai ffurfiol hefyd ac argymhellion a allai fod yn ddefnyddiol i ymddiriedolwyr wrth iddynt reoli eu helusen.

## Y fframwaith budd cyhoeddus

Mae'r siart canlynol yn dangos i chi ble mae adrodd ar fudd cyhoeddus wedi'i gynnwys yn y fframwaith cyffredinol a'r hyn y mae'n ei olygu i'ch sefydliad fod yn elusen, gweithredu fel elusen ac adrodd ar waith eich elusen.

# Fframwaith budd cyhoeddus



# Rhan 2: Y gofyniad i adrodd ar fudd cyhoeddus

(Gofyniad cyfreithiol): mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusennau cofrestredig adrodd bob blwyddyn yn eu Hadroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar sut y maent wedi cyflawni dibenion eu helusen er budd y cyhoedd.

Amlinellir y gofyniad hwn yn Rheoliadau (Cyfrifon ac Adroddiadau) Elusennau 2008 (gweler Atodiad A).

## Y gofyniad adrodd ar fudd cyhoeddus i elusennau llai

'Elusennau llai' yw elusennau cofrestredig sy'n is na'r trothwy archwilio lle nad yw'r incwm gros yn fwy na £500,000.

(Gofyniad cyfreithiol): mae'n rhaid i elusennau cofrestredig llai adrodd ar fudd cyhoeddus drwy:

- gynnwys crynodeb byr yn amlinellu'r prif weithgareddau a wnaed gan yr elusen i gyflawni ei dibenion elusennol er budd y cyhoedd
- cynnwys datganiad yn nodi a ydynt wedi cydymffurfio â'u dyletswydd i roi sylw dyledus i'n canllawiau budd cyhoeddus wrth ymarfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau y mae'r canllawiau'n berthnasol iddynt.

## Y gofyniad adrodd ar fudd cyhoeddus i elusennau mwy

'Elusennau mwy' yw elusennau cofrestredig sy'n uwch na'r trothwy archwilio lle mae'r incwm gros yn fwy na £500,000.

(Gofyniad cyfreithiol): mae'n rhaid i elusennau cofrestredig mwy adrodd ar fudd cyhoeddus drwy:

- ddarparu adolygiad yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr o'r gweithgareddau arwyddocaol a wnaed gan yr elusen i gyflawni ei dibenion elusennol er budd y cyhoedd
- darparu manylion am ddibenion ac amcanion
- darparu manylion am y strategaethau a fabwysiadwyd a'r gweithgareddau a wnaed i gyflawni'r dibenion a'r amcanion hynny
- darparu manylion am gyflawniadau trwy gyfeirio at y dibenion a'r amcanion a osodwyd
- cynnwys datganiad ynghylch a ydynt wedi cydymffurfio â'u dyletswydd i roi sylw dyledus i'n canllawiau budd cyhoeddus wrth ymarfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau y mae'r canllawiau'n berthnasol iddynt.

# Rhan 3: Sut i adrodd ar fudd cyhoeddus

## Rheolau am sut i adrodd ar fudd cyhoeddus

Heblaw am y gofynion adrodd gwahanol ar gyfer elusennau cofrestredig llai a mwy a nodir yn rhan 2 y canllaw hwn, nid oes unrhyw reolau ynghylch sut y dylai ymddiriedolwyr adrodd ar fudd cyhoeddus.

Yr ymddiriedolwyr fydd yn penderfynu ar lefel y manylion i'w defnyddio wrth ddisgrifio sut y maen nhw wedi cyflawni dibenion elusennol yr elusen er budd y cyhoedd yn y flwyddyn adrodd.

## Sut i ddelio â budd cyhoeddus yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Nid oes angen i adroddiad ar fudd cyhoeddus gael ei gynnwys fel adran ar wahân yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Gall gael sylw, yn naturiol, drwy gorff yr adroddiad.

I nifer o elusennau cofrestredig (yn enwedig elusennau llai) bydd yn ddigon i fodloni'r gofyniad i adrodd ar fudd cyhoeddus os yw Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn:

- esbonio beth mae'r elusen yno i'w gyflawni (ei dibenion)
- esbonio beth mae'r elusen wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn i gyflawni'r dibenion hynny (er budd y cyhoedd)
- cynnwys datganiad ynghylch a yw'r ymddiriedolwyr, wrth wneud penderfyniadau am hynny, wedi rhoi sylw dyledus i'n canllawiau budd cyhoeddus wrth ymarfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau y mae'r canllawiau'n berthnasol iddynt.

## Sut gall adrodd am fudd cyhoeddus helpu elusennau

Mae dyletswydd ar ymddiriedolwyr elusen i gyflawni dibenion eu helusen er budd y cyhoedd. (Gweler **Budd cyhoeddus: rhedeg elusen** (PB2).) Mae adrodd ar fudd cyhoeddus yn gyfle i'r ymddiriedolwyr esbonio sut maen nhw wedi gwneud hynny bob blwyddyn. Gall adrodd ar fudd cyhoeddus, os yw'n cael ei wneud yn dda, fod yn offeryn effeithiol i'r ymddiriedolwyr.

Mae ymddiriedolwyr elusen, sy'n dweud bod adrodd ar fudd cyhoeddus wedi helpu eu helusen, yn dweud wrthym ei fod yn helpu i:

- ganolbwyntio ar yr hyn y mae eu helusen yno i'w gyflawni (ei dibenion) wrth gynllunio gweithgareddau
- dangos beth mae eu helusen yn ei wneud a gwerth ei gwaith, yn arbennig wrth wneud cais am gyllid grant neu godi arian
- cysylltu ag adrodd am effaith a dangos tryloywder ac atebolrwydd yr elusen
- gwella ansawdd cyffredinol adrodd ar waith yr elusen

## Enghreifftiau o adrodd ar fudd cyhoeddus

(Gofyniad cyfreithiol): mae'n rhaid i'r elusennau hynny nad ydynt yn gymwys, neu nad ydynt yn dewis, paratoi eu cyfrifon ar sail derbyniadau a thaliadau baratoi eu cyfrifon i gydymffurfio â'r Datganiad o Arferion Cymeradwyo (SORP) Cyfrifon ac Adroddiadau gan Elusennau.

I helpu ymddiriedolwyr elusen i baratoi eu hadroddiadau a'u cyfrifon yn unol ag argymhellion SORP 2005 rydym wedi cynhyrchu **Adroddiadau Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a Chyfrifon Enghreifftiol**. Er nad ydynt yn ffurfio rhan o'n canllawiau budd cyhoeddus, gallant fod yn ddefnyddiol i ymddiriedolwyr o ran cynllun a fformat eu Hadroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr mewn ffordd sy'n cynnwys adrodd ar fudd cyhoeddus.

Mae'r enghreifftiau yn mynd i'r afael â'r gofynion adrodd ar fudd cyhoeddus gwahanol ar gyfer elusennau cofrestredig llai a mwy.

# Rhan 4: Adroddiadau Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a anfonir at y Comisiwn Elusennau

## Dangos Adroddiadau Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar ein gwefan

Dangoswn Adroddiadau Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a anfonir atom ar ein gwefan.

## Cymeradwyo Adroddiadau Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am fudd cyhoeddus

Nid ydym, fel mater o bolisi, yn cymeradwyo adrodd ar fudd cyhoeddus gan elusennau unigol.

Fodd bynnag, byddwn yn parhau i geisio a darparu enghreifftiau da o adrodd ar fudd cyhoeddus fel modelau i helpu elusennau tebyg eraill.

## Gwirio Adroddiadau Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Rydym yn gwirio hapsampl o Adroddiadau Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar sail ansawdd adrodd, gan gynnwys ar fudd cyhoeddus.

Mae Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn bwysig i elusen sy'n adrodd ar ei gwaith mewn modd tryloyw i roddwyr a'r cyhoedd. Gallwn ystyried methiant cyffredinol i adrodd yn arwydd posibl o broblemau eraill y byddwn efallai am eu harchwilio ymhellach â'r ymddiriedolwyr.

Hefyd, os caiff ei ddwyn at ein sylw, byddem yn ystyried methu'n barhaus i adrodd ar fudd cyhoeddus gan ymddiriedolwyr elusen yn fater rheoleiddio posibl.

# Rhan 5: Gwybodaeth bellach

Mae'r rhan hon yn rhoi dolenni i ganllawiau eraill a allai fod o ddiddordeb i chi mewn perthynas â'r canllaw hwn.

**Mae'r canlynol wedi'i gynnwys yn ein cyfres o ganllawiau budd cyhoeddus:**

- (Gofyniad cyfreithiol): **Budd cyhoeddus: rhedeg elusen** (PB2)

  Mae'r canllaw hwn yn esbonio budd cyhoeddus yng nghyd-destun rhedeg elusen.

- (Gofyniad cyfreithiol): **Budd cyhoeddus: y gofyniad budd cyhoeddus** (PB1)

  Mae'r canllaw hwn yn esbonio'r gofyniad cyfreithiol sy'n datgan bod rhaid i ddibenion elusen fod er 'budd y cyhoedd'. Gelwir hyn y 'gofyniad budd cyhoeddus'.

**Nid yw'r canlynol wedi'i gynnwys yn ein cyfres o ganllawiau budd cyhoeddus:**

- **Budd cyhoeddus: trosolwg**

  Mae'r canllaw hwn yn rhoi trosolwg o ganllawiau budd cyhoeddus y Comisiwn Elusennau.
  Mae'n esbonio:

  - sut y bydd deall budd cyhoeddus yn helpu ymddiriedolwyr elusen
  - dyletswydd ymddiriedolwyr i 'roi sylw' i'n canllawiau budd cyhoeddus
  - rhai pwyntiau allweddol i'w gwybod am y gyfraith sy'n ymwneud â budd cyhoeddus

- (Gofyniad cyfreithiol): **Paratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr**

  Canllawiau ar y gofyniad yn y Ddeddf Elusennau sy'n datgan bod rhaid i bob elusen gofrestredig baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr.

- **Adroddiadau Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a Chyfrifon Enghreifftiol**

  Canllaw I helpu elusennau i baratoi eu hadroddiadau a'u cyfrifon yn unol ag argymhellion SORP 2005.

- **Egwyddorion Adrodd ar Effaith Dda**

  Mae'r ddogfen hon yn amlinellu rhai o egwyddorion adrodd am effaith dda.

# Rhan 6: Termau technegol

Mae'r termau canlynol yn cael eu defnyddio yn y canllaw hwn, a dylid deall bod ganddynt yr ystyron penodol fel y nodir isod:

**Deddf Elusennau:** Deddf Elusennau 2011.

**Ymddiriedolwyr elusen:** y bobl sy'n gwasanaethu ar gorff llywodraethu elusen. Gallant gael eu galw'n ymddiriedolwyr, cyfarwyddwyr, aelodau bwrdd, llywodraethwyr neu'n aelodau pwyllgor. Mae ymddiriedolwyr elusen yn gyfrifol am reoli gweinyddiad yr elusen yn gyffredinol.

**Dogfen lywodraethol:** dogfen gyfreithiol sy'n pennu dibenion elusen ac, fel arfer, sut y caiff ei gweinyddu. Gall fod yn weithred ymddiriedolaeth, cyfansoddiad, erthyglau cymdeithasu, ewyllys, trawsgludiad, Siarter Frenhinol, cynllun y Comisiwn Elusennau neu'n ddogfen ffurfiol arall.

**Amcanion:** 'Amcanion' elusen yw datganiad o'i ddibenion. Fel arfer fe'u gwelir yng 'nghymal amcanion' dogfen lywodraethol yr elusen. Fodd bynnag, nid oes gan bob elusen ddogfen lywodraethol gyda chymal amcanion.

Fel arfer mae cymal amcanion elusen yn golygu'r un peth â'i dibenion, ond weithiau maen nhw ychydig yn wahanol, e.e.:

- pan nad yw'r cymal amcanion yn mynegi dibenion y sefydliad yn ddigonol neu'n gyflawn
- mae'r cymal yn cynnwys mwy na dim ond yr amcanion, megis pwerau

(Gofyniad cyfreithiol): **y gofyniad budd cyhoeddus:** y gofyniad cyfreithiol sy'n datgan, er mwyn bod yn elusen, rhaid i ddibenion sefydliad fod er budd y cyhoedd.

**Diben(ion)** a **diben(ion) elusennol:** defnyddiwn y term '**diben(ion)**' i olygu diben(ion) sefydliad unigol. Diben eich elusen yw'r hyn y cafodd ei sefydlu i'w gyflawni.

(Gofyniad cyfreithiol): i fod yn '**ddiben elusennol**' mae'n rhaid i ddiben gael ei gynnwys o fewn un o'r disgrifiadau o ddibenion yn y Ddeddf Elusennau a bod er budd y cyhoedd. Rhaid bod modd dangos hyn ym mhob achos.

**Y llysoedd:** defnyddiwn y term hwn i olygu, gyda'i gilydd, y Tribiwnlys, yr Uwch Dribiwnlys a'r llysoedd.

**Y Tribiwnlys:** y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusen) yw lefel gyntaf apelio yn erbyn penderfyniadau'r Comisiwn Elusennau a amlinellwyd yn Atodlen 6 o'r Ddeddf Elusennau.

**Yr Uwch Dribiwnlys:** Yr Uwch Dribiwnlys (y Siambr Dreth a Siawnsri) yw ail lefel apelio yn erbyn penderfyniadau'r Comisiwn a amlinellwyd yn Atodlen 6 o'r Ddeddf Elusennau.

# Atodiad A: Rheoliadau (Cyfrifon ac Adroddiadau) Elusennau 2008

Mae'r rhan hon yn darparu darn o Reoliadau (Cyfrifon ac Adroddiadau) Elusennau 2008 mewn perthynas ag adrodd ar fudd cyhoeddus

**40.**- (1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i adroddiad blynyddol sy'n cael ei baratoi yn unol ag adran 45(1) o Ddeddf 1993 gan ymddiriedolwyr elusen nad yw'n rhiant elusen.

(2) Mae'n rhaid i'r adroddiad ar weithgareddau elusen yn ystod y flwyddyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol sy'n cael ei baratoi o dan adran 45 o Ddeddf 1993-

(a) datgan at ba flwyddyn ariannol y mae'n cyfeirio ati;

(b) rhaid-

(i) yn achos elusen nad yw'n elusen y gellir ei harchwilio, fod yn grynodeb byr sy'n amlinellu-

**(aa) y prif weithgareddau a wnaed gan yr elusen i hyrwyddo ei dibenion elusennol er budd y cyhoedd a**

(bb) prif gyflawniadau'r elusen yn ystod y flwyddyn.

**(ii) yn achos elusen sy'n elusen y gellir ei harchwilio, yn adolygiad o'r gweithgareddau arwyddocaol a wnaed gan yr elusen yn ystod y flwyddyn ariannol berthnasol i hyrwyddo ei dibenion elusennol er budd y cyhoedd neu i gynhyrchu adnoddau i'w defnyddio i hyrwyddo ei dibenion gan gynnwys -**

(aa) manylion am y nodau a'r amcanion y mae'r ymddiriedolwyr elusen wedi'u gosod ar gyfer yr elusen yn y flwyddyn honno, manylion am y strategaethau sydd wedi'u mabwysiadu a'r gweithgareddau arwyddocaol eraill a waned er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion hynny;

(bb) manylion am gyflawniadau'r elusen yn ystod y flwyddyn, wedi'u mesur drwy gyfeirio at y nodau a'r amcanion a gafodd eu gosod;

(cc) manylion am unrhyw gyfraniad arwyddocaol gan wirfoddolwyr i'r gweithgareddau hynny;

(dd) manylion am brif ffynonellau incwm yr elusen; a

(ee) datganiad ynghylch a yw'r ymddiriedolwyr elusen wedi ystyried y prif risgiau y mae'r elusen yn eu hwynebu a bodloni eu hunain bod systemau neu weithdrefnau wedi'u sefydlu i reoli'r risgiau hynny;

(c) rhaid-

(i) os-

(aa) oedd unrhyw gronfa'r elusen mewn diffyg ar ddechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol; a

(bb) mae'r elusen yn un lle mae datganiad o gyfrifon wedi cael ei baratoi ar ei chyfer o dan adran 42(1) o Ddeddf 1993 ar gyfer y flwyddyn ariannol honno,

cynnwys manylion am y camau a gymerwyd gan yr ymddiriedolwyr elusen i ddileu'r diffyg;

**(ii) cynnwys datganiad gan yr ymddiriedolwyr elusen yn nodi a ydynt wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 4 o Ddeddf 2006 i roi sylw dyledus i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn; a**

(iii) cael ei ddyddio a'i arwyddo gan un neu ragor o ymddiriedolwyr yr elusen, a bydd awdurdod gan bob un ohonynt i wneud hynny.